Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ceisiadau i roi pwerau dyfarnu graddau: canllawiau a meini prawf ar gyfer ymgeiswyr yng Nghymru (2017)

2017

© Hawlfraint y Goron 2019 WG37365 ISBN digidol: 978 1 78964 980 2

## Cyflwyniad

i. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud ceisiadau i roi pwerau dyfarnu graddau (graddau sylfaen, graddau a addysgir a graddau ymchwil) i sefydliadau yng Nghymru[1].

ii. Yn unol ag adran 76 Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, caiff y Cyfrin Gyngor roi pwerau i ddyfarnu tri chategori o raddau, a elwir fel rheol yn raddau 'sylfaen', graddau 'a addysgir' a graddau 'ymchwil'. Caiff y categorïau hyn eu disgrifio yn narpariaethau adran 76*.* Mae adran 76 yn rhoi grym i'r Cyfrin Gyngor nodi bod sefydliadau sy'n darparu addysg uwch yn gymwys i ddyfarnu graddau, hynny yw rhoi pwerau iddynt ddyfarnu eu graddau eu hunain. Yn ogystal, mae adran 76 yn galluogi'r Cyfrin Gyngor i gyflwyno gorchmynion sy'n nodi bod sefydliadau yng Nghymru sy'n perthyn i'r sector addysg bellach yn gymwys i roi graddau sylfaen. Y sefydliadau addysg bellach hynny yw'r rhai sydd wedi'u cynnwys dan adran 15 neu 16 Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 neu sydd wedi'u dynodi dan adran 28 y Ddeddf honno.

iii. Cyn 15 Medi 2015 roedd ceisiadau gan sefydliadau yng Nghymru a Lloegr yn cael eu hystyried dan yr un meini prawf a chanllawiau[2]: "*Applications for the grant of taught degree awarding powers, research degree awarding powers and university title"* (Awst 2004) ac "*Applications for the Grant of Foundation Degree Awarding Powers: Guidance and Criteria for Applicant Further Education Institutions in England and Wales"* (Hydref 2010). O fis Chwefror 2017 ymlaen mae'r ddogfen hon yn disodli'r ddau gyhoeddiad uchod[3] o safbwynt Cymru[4]; fodd bynnag dylid nodi nad oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i'r meini prawf sydd yn y ddau gyhoeddiad uchod. Wedi dweud hynny, yn y ddogfen hon caiff y canllawiau eu cyflwyno'n fwy cryno ac mewn modd sy'n golygu eu bod yn haws eu defnyddio, ac maent wedi'u diweddaru er mwyn ystyried newidiadau i'r dirwedd o ran addysg uwch ers 2004.

iv. Y prif newid fu dileu cyfeiriadau at Swyddfa Cymru yn ystod y broses er mwyn adlewyrchu rôl Prif Weinidog Cymru fel aelod o'r Cyfrin Gyngor wrth gynghori Ei Mawrhydi ynghylch arfer ei swyddogaethau mewn meysydd cymhwysedd a ddatganolwyd, sy'n cynnwys materion yn ymwneud ag addysg uwch.

v. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am farn yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch a Swyddfa'r Cyfrin Gyngor wrth lunio'r ddogfen hon. Mae'r Cyfrin Gyngor wedi cytuno ar y canllawiau.

vi. Dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â chyhoeddiad yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd *Degree Awarding Powers in Wales: Handbook for applicants* lle ceir rhagor o wybodaeth am rôl yr Asiantaeth yn y broses o wneud cais, y gofynion o ran tystiolaeth, amseru'r ceisiadau, costau, y broses graffu ac apeliadau.

---

1 Sefydliadau y mae eu gweithgareddau yn cael eu cyflawni'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. At y dibenion hyn, mae'r term 'cael eu cyflawni'n… bennaf yng Nghymru' yn golygu bod y rhan fwyaf o weithgareddau'r sefydliad yn digwydd yng Nghymru.

2. Yn Lloegr, caiff ceisiadau eu hystyried yn awr dan feini prawf a chanllawiau sydd ar wahân i'r rhai a geir yng Nghymru; mae'r meini prawf a'r canllawiau dan sylw i'w gweld yma: Higher education: market entry guidance.

3. Mae hefyd yn disodli *"Companion Guide for Foundation Degree-Awarding Powers"* (Hydref 2010) o safbwynt Cymru.

4. Dim ond i geisiadau am bwerau dyfarnu graddau y mae hyn yn berthnasol; bydd canllawiau wedi'u diweddaru yn dilyn ar gyfer ceisiadau am deitl prifysgol yng Nghymru. Yn y cyfamser dylai ymgeiswyr am deitl prifysgol gysylltu â Llywodraeth Cymru i gael rhagor o fanylion.

## Y broses o wneud cais am bwerau dyfarnu graddau

Cadeirydd corff llywodraethu'r sefydliad yn cyflwyno cais i Glerc y Cyfrin Gyngor.

Y Cyfrin Gyngor yn cyfeirio'r cais at Lywodraeth Cymru er mwyn cael cyngor.

Yn achos ceisiadau am bwerau dyfarnu graddau sylfaen, bydd Llywodraeth Cymru yn asesu cynaliadwyedd ariannol sefydliad addysg bellach ac yn cynnal asesiad risg ohono. Yng ngoleuni'r asesiad hwnnw, bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu a ddylid gofyn i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd am gyngor.

Mae Llywodraeth Cymru yn cysylltu â'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd gyda chais ffurfiol am gyngor.

Mae'r *Advisory Committee on Degree Awarding Powers* yn rhoi ystyriaeth gychwynnol i'r cais.

Os bydd y Pwyllgor yn penderfynu y dylai'r cais gael ei ystyried ymhellach, bydd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn craffu'n fanwl ar y sefydliad a gyflwynodd y cais.

Os bydd y Pwyllgor yn penderfynu nad yw'r sefydliad a gyflwynodd y cais wedi llunio achos digonol dros ystyried ei gais ymhellach, bydd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn dweud hynny wrth y sefydliad a Llywodraeth Cymru.

Mae'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad craffu'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ac yn cyflwyno argymhelliad i Fwrdd yr Asiantaeth. Os bydd y Bwrdd yn ei gymeradwyo, bydd yr argymhelliad yn cael ei anfon i Lywodraeth Cymru.

Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am farn Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ynghylch sefydlogrwydd ariannol sefydliad a gyflwynodd gais, os yw'n cael cyllid cyhoeddus. Os nad yw'r sefydliad yn cael cyllid cyhoeddus, gall Llywodraeth Cymru gomisiynu CCAUC neu gorff cymwys arall i gynnig cyngor proffesiynol ynghylch sefydlogrwydd ariannol y sefydliad.

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio cyngor yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd a CCAUC i lunio ei gyngor i'r Cyfrin Gyngor.

Mae'r Cyfrin Gyngor yn hysbysu'r ymgeisydd o'i benderfyniad ynghylch ei gais.

## ADRAN 1: Cymhwysedd a bodloni'r meini prawf

1. Caiff sefydliadau yng Nghymru sy'n cynnig rhaglenni addysg uwch ar lefel briodol (a ddisgrifir ym mharagraff 3 isod) ofyn am bŵer i ddyfarnu eu graddau eu hunain.

2. Y gofyniad trosfwaol ar gyfer pwerau dyfarnu graddau yw bod angen i sefydliad fod yn gymuned academaidd gydlynol, hunanfeirniadol sydd wedi ymrwymo'n amlwg i drefniadau sicrhau ansawdd a ategir gan systemau effeithiol ar gyfer ansawdd a gwella[5]. Bydd yn ofynnol i sefydliad sy'n dymuno dyfarnu ei raddau ei hun ddangos ei fod yn bodloni'r meini prawf a nodir yn **Atodiad A**. Yn benodol rhaid bod sefydliad yn gallu dangos effeithiolrwydd ei drefniadau presennol ar gyfer rheoleiddio a sicrhau ansawdd, a'i allu i fodloni'r disgwyliadau ynghylch safonau academaidd a rheoli ansawdd, a nodir yn yr *UK Quality Code for Higher Education*[6].

3. **Meini prawf cyn gwneud cais:**

   Pwerau dyfarnu graddau a addysgir

   Fel rheol dylai sefydliad sy'n gofyn am bwerau dyfarnu graddau a addysgir fod yn gallu dangos:

   - bod ganddo o leiaf bedair blynedd yn olynol o brofiad, yn union cyn blwyddyn y cais, o ddarparu rhaglenni addysg uwch ar lefel sy'n cyfateb o leiaf i Lefel 6 y *Framework for Higher Education Qualifications of Degree-Awarding Bodies in England, Wales and Northern Ireland*, a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd; a

   - bod mwyafrif ei fyfyrwyr addysg uwch wedi cofrestru ar raglenni astudio y cydnabyddir eu bod ar Lefel 6 neu uwch ar y Fframwaith hwnnw.

   Pwerau dyfarnu graddau ymchwil

   Rhaid yn gyntaf bod sefydliad sy'n gofyn am bwerau dyfarnu graddau ymchwil wedi cael pwerau dyfarnu graddau a addysgir. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn barod i brosesu ceisiadau am y ddwy set o bwerau ar yr un pryd, os ceir cais gan yr ymgeisydd i wneud hynny. Wrth ystyried cais am bwerau dyfarnu graddau ymchwil yn unig, bydd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn gofyn am dystiolaeth bod y sefydliad yn parhau i fodloni'r holl feini prawf sy'n llywodraethu'r broses o roi pwerau dyfarnu graddau a addysgir, a'i fod yn defnyddio'r pwerau hynny'n briodol.

   Pwerau dyfarnu graddau sylfaen

   Dylai sefydliadau addysg bellach fod yn gallu dangos bod ganddynt o leiaf bedair blynedd yn olynol o brofiad, yn union cyn blwyddyn y cais, o ddarparu rhaglenni

5 Nodwyd yn Adroddiad Swyddogol Tŷ'r Cyffredin, cyfrol 201, Atebion Ysgrifenedig, colofn 31 (16 Rhagfyr 1991).

6 Mae'r *UK Quality Code for Higher Education* yn cynnwys tair rhan sy'n ymdrin â safonau academaidd (sy'n cynnwys y *Frameworks for Higher Education Qualifications of UK Degree-Awarding Bodies*, datganiadau nodweddion, fframweithiau credydau a datganiadau meincnodau pynciau), ansawdd academaidd a gwybodaeth gyhoeddus.

addysg uwch ar lefel sy'n cyfateb o leiaf i Lefel 5 y *Framework for Higher Education Qualifications of Degree-Awarding Bodies in England, Wales and Northern Ireland*.

4. Caiff ymgeiswyr eu cynghori'n daer i gysylltu â'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd cyn gwneud cais, er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o faterion cymhwysedd, y meini prawf, y gofynion o ran tystiolaeth, yr amserlenni tebygol a'r prosesau craffu.

## ADRAN 2: Paratoi a chyflwyno cais

5. Dylai ceisiadau fod ar ffurf hunanddadansoddiad beirniadol, a baratowyd gan y sefydliad sy'n cyflwyno cais, a ragflaenir gan lythyr cais ffurfiol gan gadeirydd corff llywodraethu'r sefydliad. Dylai pob cais gael ei gyflwyno'n electronig gan gadeirydd corff llywodraethu'r sefydliad i Glerc y Cyfrin Gyngor yn enquiries@pco.gov.uk a dylid anfon copi i Lywodraeth Cymru yn CeisiadauAU.HEApplications@llyw.cymru . Dylid eu lanlwytho i wefan SharePoint yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (gweler cyhoeddiad yr Asiantaeth, *Degree Awarding Powers in Wales: Handbook for applicants* i gael mwy o fanylion).

6. Dylai'r hunanddadansoddiad beirniadol ddisgrifio a dadansoddi'n glir ac yn agored effeithiolrwydd y dulliau a ddefnyddir gan y sefydliad i'w fodloni ei hun ei fod yn gallu bodloni'r meini prawf sy'n berthnasol i'r pwerau y gofynnir amdanynt, fel y nodir yn **Atodiad A**. Dylai hefyd gynnig sylwadau clir ac agored ynghylch effeithiolrwydd y dulliau hynny. Mater i sefydliadau yw penderfynu sut y maent am strwythuro eu hunanddadansoddiad beirniadol, ond dylid cynnwys cyfeiriadau manwl at y meini prawf perthnasol a'r gofynion o ran tystiolaeth ategol. Mae cyhoeddiad yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd *Degree Awarding Powers in Wales: Handbook for applicants* yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y dogfennau sy'n ofynnol ac yn cynnwys templedi ar gyfer ceisiadau.

7. Yn ogystal bydd angen i sefydliadau addysg bellach sy'n gwneud cais am bwerau dyfarnu graddau sylfaen gynnwys datganiad ynghylch dilyniant (sy'n dangos bod y sefydliad addysg bellach wedi cytuno ar lwybrau dilyniant clir ac yn hyrwyddo'r llwybrau hynny ar gyfer dysgwyr sydd am symud ymlaen i gwrs astudio lefel uwch ar ôl cwblhau'r radd sylfaen); tystiolaeth o waith ymgynghori â myfyrwyr ynghylch a ddylai'r sefydliad geisio dyfarnu graddau sylfaen; a llythyr(au) gan sefydliad(au) dilysu'r sefydliad addysg bellach[7]. Ceir rhagor o fanylion isod am bob un o'r rhain.

*Datganiad ynghylch dilyniant*

- Bydd angen i'r cais gynnwys datganiad ar wahân ynghylch dilyniant, sy'n dangos bod y sefydliad addysg bellach wedi cytuno ar lwybrau dilyniant clir ac yn hyrwyddo'r llwybrau hynny ar gyfer dysgwyr sydd am symud ymlaen i gwrs astudio lefel uwch ar ôl cwblhau'r radd sylfaen. Yn benodol bydd disgwyl i'r sefydliad gyflwyno cynigion i ddangos beth y mae'n bwriadu ei wneud i sicrhau bod unrhyw fyfyrwyr y mae'n dyfarnu gradd sylfaen iddynt yn cael cyfle i symud ymlaen i o leiaf un cwrs astudio lefel uwch.

---

7 Mae Pennod B10: *Managing Higher Education Provision with Others* yn yr *UK Quality Code for Higher Education* yn cynnwys rhagor o wybodaeth am rôl sefydliad/partner dilysu.

- Dylai'r sefydliad addysg bellach sy'n gwneud cais restru'r holl drefniadau dilyniant sydd ar waith ar gyfer pob cwrs gradd sylfaen unigol a gynigir ganddo adeg cyflwyno'r cais.

- Wrth ystyried y cyngor a gafwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, bydd angen i Lywodraeth Cymru deimlo'n fodlon bod rheolaeth academaidd y sefydliad yn ddigon cadarn i sicrhau bod llwybrau dilyniant wedi'u sefydlu ac yn cael eu hyrwyddo, ac y byddant yn parhau felly yn y dyfodol. Bydd angen i lwybrau dilyniant neu gytundebau cymalu ystyried y canllawiau ynghylch dilyniant a nodir yn Adran 2.4 cyhoeddiad yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd *Characteristics Statement: Foundation Degree*, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2015. Pan gaiff sefydliad addysg bellach ei asesu at ddibenion rhoi pwerau dyfarnu graddau sylfaen iddo, bydd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn ystyried perfformiad tebygol rheolaeth academaidd y sefydliad yn y dyfodol ac, yn benodol, a ellir dibynnu ar y sefydliad i adnewyddu trefniadau dilyniant neu chwilio am drefniadau newydd pe bai'r hen drefniadau'n dod i ben. Bydd y cyfnod 'prawf' o chwe blynedd, y mae'n debygol y bydd y Cyfrin Gyngor yn cael ei annog i'w gyflwyno yn y lle cyntaf ar gyfer sefydliad sy'n llwyddo i gael pwerau dyfarnu graddau sylfaen, yn bwysig er mwyn rhoi prawf ar y modd y mae'r sefydliad yn datblygu ac yn cynnal ei drefniadau dilyniant.

*Ymgynghori â'r myfyrwyr*

- Yn ogystal dylai sefydliadau addysg bellach gyflwyno i Swyddfa'r Cyfrin Gyngor, ar yr un pryd â'u hunanddadansoddiad beirniadol, dystiolaeth i ddangos eu bod wedi ymgynghori â'u myfyrwyr ynghylch a ddylent geisio dyfarnu graddau sylfaen, sut y cafodd y gwaith ymgynghori hwnnw ei gyflawni a beth oedd y canlyniad. Bydd Swyddfa'r Cyfrin Gyngor yn anfon canlyniadau'r gwaith ymgynghori i Lywodraeth Cymru a fydd, yn ei thro, yn hysbysu'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd pan fydd yn gofyn am ei chyngor. Er y bydd disgwyl i sefydliad addysg bellach fod wedi cynnal ymgynghoriad cyn bod y cais yn cael ei ystyried, nid oes yn rhaid i'r canlyniadau ddangos cefnogaeth i'r cynigion.

*Llythyr gan sefydliad(au) dilysu*

- Dylai'r hunanddadansoddiad beirniadol gael ei anfon gyda llythyr gan bartner(iaid) dilysu'r sefydliad addysg bellach, sy'n rhoi sylwadau ynghylch natur y berthynas weithredol sydd wedi'i sefydlu ac sy'n cynnig sylwadau ynghylch gallu'r ymgeisydd i gyflawni'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â phwerau dyfarnu graddau sylfaen. Ni fydd gan sefydliadau dilysu bŵer i wrthod cais ac ni fydd sylwadau negyddol o reidrwydd yn golygu bod cais yn annilys, ond byddant yn cael eu hystyried gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd fel elfen o'r dystiolaeth gyffredinol a gyflwynwyd.

8. Mater i sefydliad unigol yw penderfynu pryd y dylai gyflwyno ei gais am bwerau dyfarnu graddau. Dylai sefydliadau gofio mai'r cam cyntaf ym mhroses yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer craffu ar geisiadau yw gofyn i'r *Advisory Committee on Degree Awarding Powers* ystyried y cais (gweler paragraffau 14-15 isod). Fel rheol bydd angen i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd gael cais gan Lywodraeth Cymru am gyngor o leiaf dair wythnos cyn cyfarfod y Pwyllgor Cynghori lle bydd y cais yn cael

ei ystyried. Mae hynny'n golygu bod angen i'r cais gael ei gyflwyno i'r Cyfrin Gyngor o leiaf bum wythnos cyn cyfarfod y Pwyllgor lle bydd y cais yn cael ei ystyried. Caiff dyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Cynghori a'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau eu cyhoeddi ar wefan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd[8].

9. Gwaith craffu gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd fydd yn penderfynu a yw sefydliad a gyflwynodd gais yn addas i arfer y pwerau y gofynnir amdanynt. Rhaid i'r ymgeisydd ddangos yn glir bod modd i'r cyhoedd fod â hyder, yn awr ac yn y dyfodol, yn systemau'r sefydliad ar gyfer sicrhau safonau academaidd ac ansawdd ei raddau.

10. Diben y meini prawf yw cadarnhau bod y sefydliad sy'n cyflwyno cais yn gymuned academaidd gydlynol a hunanfeirniadol â sylfeini cryf, sy'n gallu dangos ei fod yn gwarchod ei safonau'n gadarn. I'r perwyl hwnnw bydd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn barnu, drwy archwilio'r dystiolaeth a ddarparwyd ac ar sail y meini prawf, i ba raddau y mae modd i sefydliad ennyn hyder y cyhoedd yn ei allu i gynnal safonau academaidd y graddau a gynigir ganddo yn y DU a thramor, lle bo hynny'n berthnasol. Bydd rhywfaint o'r dystiolaeth a ddarperir gan sefydliadau'n dystiolaeth feintiol, ond bydd rhywfaint ohoni hefyd yn ansoddol. Bydd yr holl dystiolaeth yn cael ei barnu gan uwch-aelodau o'r gymuned academaidd.

## ADRAN 3: Asesu'r cais a rhoi gwybod am y penderfyniad

11. Ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno i'r Cyfrin Gyngor, bydd y Cyfrin Gyngor yn gofyn am gyngor gan Lywodraeth Cymru; yna bydd Llywodraeth Cymru yn cysylltu â'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd gyda chais ffurfiol am gyngor.

12. **Yn achos sefydliadau addysg bellach sy'n gwneud cais am bwerau dyfarnu graddau sylfaen:** cyn gofyn am gyngor gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, bydd Llywodraeth Cymru yn asesu cynaliadwyedd ariannol y sefydliad addysg bellach ac yn cynnal asesiad risg ohono. Yng ngoleuni'r asesiad hwnnw, bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu a ddylid gofyn i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd am gyngor.

13. Ar ôl cael cais am gyngor gan Lywodraeth Cymru bydd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn anfon cadarnhad, i Lywodraeth Cymru a'r sefydliad a gyflwynodd gais, ei bod yn ystyried y cais. Yn ogystal bydd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn rhoi gwybod i'r sefydliad am y trefniadau ar gyfer cydgysylltu'r gwaith o brosesu'r cais.

14. I ddechrau bydd y cais yn cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf yr *Advisory Committee on Degree Awarding Powers*. Bydd y Pwyllgor Cynghori yn penderfynu a oes achos dros ystyried y cais ymhellach. Os bydd y Pwyllgor yn penderfynu y dylai'r cais gael ei ystyried ymhellach, bydd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn gwneud trefniadau ar gyfer craffu'n fanwl ar y sefydliad a gyflwynodd gais, a bydd yn hysbysu'r sefydliad yn unol â hynny. O gofio'r gweithdrefnau ffurfiol a fydd yn dilyn, mae'n annhebygol y bydd y broses yn cael ei chwblhau cyn pen llai na dwy flynedd. Os bydd y Pwyllgor Cynghori yn penderfynu nad yw'r sefydliad a gyflwynodd gais wedi llunio achos digonol dros ystyried ei gais ymhellach, bydd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn dweud hynny wrth y sefydliad a Llywodraeth Cymru.

8 Advisory Committee on Degree Awarding Powers

15. Pan fydd ail gam y gwaith craffu wedi'i gwblhau a phan fydd y Pwyllgor Cynghori wedi gorffen ystyried y cais, bydd yn cyflwyno adroddiad ac argymhelliad i Fwrdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Os bydd y Bwrdd yn ei gymeradwyo, bydd yr argymhelliad yn cael ei anfon i Lywodraeth Cymru. Bydd y cyngor yn cael ei roi'n gyfrinachol. Bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu a ddylai cyngor yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd gael ei ddatgelu i'r sefydliad a gyflwynodd gais.

16. **Yn achos sefydliadau sy'n gwneud cais am bwerau dyfarnu graddau a addysgir a/neu raddau ymchwil:** pan fydd Llywodraeth Cymru wedi cael cyngor yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, mae'n bosibl y bydd yn gofyn am farn Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ynghylch sefydlogrwydd ariannol sefydliad a gyflwynodd gais, os yw'n cael cyllid cyhoeddus. Os nad yw'r sefydliad yn cael cyllid cyhoeddus, gall Llywodraeth Cymru gomisiynu CCAUC neu gorff cymwys arall i gynnig cyngor proffesiynol ynghylch sefydlogrwydd ariannol y sefydliad. Os oes gan sefydliad a gyflwynodd gais un neu ragor o sefydliadau dilysu sy'n bartneriaid iddo, bydd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn gwahodd y sefydliadau hynny i gynnig sylwadau ynghylch natur y berthynas weithredol sydd wedi'i sefydlu a chynnig barn ynghylch addasrwydd y sefydliad i gael y pwerau y gofynnir amdanynt.

17. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio cyngor yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd i lunio ei chyngor i'r Cyfrin Gyngor. Y Cyfrin Gyngor fydd yn gyfrifol am wneud penderfyniad terfynol ynghylch cais a rhoi gwybod i'r sawl dan sylw am y penderfyniad hwnnw.

## ADRAN 4: Cyfnod y pwerau dyfarnu graddau ac adnewyddu'r pwerau

<u>Pwerau dyfarnu graddau a addysgir a graddau ymchwil</u>

18. Bydd sefydliadau yn y sector addysg uwch a ariennir gan arian cyhoeddus[9] yn cael pwerau dyfarnu graddau a addysgir a graddau ymchwil am gyfnod amhenodol. Bydd pob sefydliad arall yn cael pwerau dyfarnu graddau a addysgir a graddau ymchwil am gyfnod penodol o chwe blynedd. Ar ddiwedd pob cyfnod o chwe blynedd, bydd y meini prawf ar gyfer adnewyddu pwerau dyfarnu graddau fel a ganlyn:

- bod y sefydliad wedi tanysgrifio drwy gydol y chwe blynedd dan sylw i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (neu sefydliad sicrhau ansawdd allanol arall a allai gael ei nodi);
- bod y sefydliad wedi bod yn destun archwiliad allanol gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd; a
- bod yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd wedi barnu adeg yr archwiliad bod ganddi hyder yn y sefydliad. Bydd sefydliadau sy'n methu â chael barn o'r fath yn cael gwybod gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd beth yw'r rhesymau am hynny a bydd yn ofynnol iddynt baratoi cynllun gweithredu a gytunwyd gan y sefydliad a'r Asiantaeth a rhoi'r cynllun hwnnw ar waith. Bydd cwblhau'r cynllun gweithredu

9 Yn unol â darpariaethau Adran 91(5) Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, sefydliadau sy'n cael cyllid cyhoeddus yn uniongyrchol gan CCAUC.

hwnnw mewn modd sy'n bodloni'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn un o'r meini prawf ar gyfer adnewyddu pwerau dyfarnu graddau'r sefydliad.

19. Os na fydd y pwerau dyfarnu graddau'n cael eu hadnewyddu, bydd yn ofynnol i sefydliad roi trefniadau sicr a chlir ar waith ar gyfer gwarchod hawliau a buddiannau'r myfyrwyr y gallai eu rhaglenni astudio fod yn ymestyn y tu hwnt i'r dyddiad pan fydd y pwerau'n dod i ben. Fel rheol bydd trefniadau gwarchod o'r fath yn golygu trosglwyddo cofrestriadau'r myfyrwyr i sefydliad y mae ganddo bwerau dyfarnu graddau. Os bydd y myfyrwyr a gaiff eu trosglwyddo fel hyn yn llwyddo yn eu hasesiadau, bydd eu cymwysterau'n cael eu dyfarnu iddynt gan y sefydliad sy'n eu derbyn.

<u>Pwerau dyfarnu graddau sylfaen</u>

20. Bydd sefydliadau addysg bellach y rhoddwyd pwerau dyfarnu graddau sylfaen iddynt yn gallu dyfarnu graddau sylfaen yn unig. Bydd y pwerau'n cael eu rhoi gan Orchymyn y Cyfrin Gyngor. Mae adran 76 Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn rhoi awdurdod i'r Cyfrin Gyngor gyfyngu ar y pwerau dyfarnu graddau sylfaen, drwy gyflwyno'r Gorchymyn yn amodol ar y cyfyngiadau canlynol:

- caiff sefydliad addysg bellach ei atal rhag awdurdodi sefydliad arall i ddyfarnu gradd sylfaen ar ei ran; a/neu

- caiff sefydliad addysg bellach ei atal rhag gallu dyfarnu graddau sylfaen i fyfyrwyr nad oeddent wedi cofrestru gyda'r sefydliad pan wnaethant gwblhau'r cwrs astudio y rhoddir y dyfarniad ar ei gyfer.

21. Mae Llywodraeth Cymru  yn debygol o argymell i'r Cyfrin Gyngor y dylai sefydliad addysg bellach gael pwerau cyfyngedig ac y dylai'r pwerau hynny gael eu cyfyngu i gyfnod o chwe blynedd i ddechrau. Os bydd y sefydliad yn cael asesiad boddhaol gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd cyn diwedd y cyfnod 'prawf' hwn o chwe blynedd, bydd Llywodraeth Cymru yn cynghori'r Cyfrin Gyngor ynghylch rhychwant y pwerau y dylid eu rhoi.

# ATODIAD A: Meini prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer rhoi pwerau dyfarnu graddau

## Adran 1: Meini prawf ar gyfer rhoi pwerau dyfarnu graddau a addysgir

### A: Llywodraethu a rheolaeth academaidd

***Maen prawf A1***

Mae sefydliad a gaiff bwerau i ddyfarnu graddau a addysgir yn cael ei lywodraethu, ei reoli a'i weinyddu'n effeithiol, ac mae ganddo linellau atebolrwydd clir a phriodol ar gyfer ei gyfrifoldebau academaidd. Mae ei reolaeth ariannol yn gadarn ac mae perthynas glir yn bodoli rhwng ei bolisi ariannol a'i drefniadau ar gyfer diogelu ansawdd a safonau ei ddarpariaeth o ran addysg uwch. Yn achos sefydliad nad yw'n sefydliad addysg uwch yn bennaf, mae ei brif weithgareddau'n gydnaws â'r gwaith o ddarparu rhaglenni a dyfarniadau addysg uwch.

**Esboniad**

Rhaid bod gan sefydliadau sy'n dyfarnu graddau sylfeini cadarn ym mhob ffordd (o safbwynt cyfansoddiadol, ariannol ac academaidd ac o safbwynt y modd y cânt eu rheoli) er mwyn i'r cyhoedd allu bod â hyder llwyr yn y sefydliadau a'u graddau. Mae'n bwysig bod trefniadau diogelu priodol ar waith i sicrhau nad yw cyfyngderau ariannol a phwysau eraill yn peryglu safonau academaidd nac ansawdd rhaglenni fel y nodir ym manylebau'r rhaglenni.

**Gofyniad o ran tystiolaeth**

Bydd yn ofynnol i'r sefydliad sy'n cyflwyno cais ddarparu tystiolaeth o'r canlynol:

- bod ei bolisïau cynllunio ariannol, sicrhau ansawdd a dyrannu adnoddau'n gydlynol ac yn ymwneud â'i genhadaeth, ei nodau a'i amcanion ar gyfer addysg uwch;
- bod ei weithgareddau addysg uwch yn rhoi ystyriaeth lawn i ddeddfwriaeth berthnasol, yr *UK Quality Code for Higher Education* a chanllawiau cysylltiedig;
- bod ei genhadaeth ar gyfer addysg uwch a'i bolisïau a'i systemau cysylltiedig wedi'u deall ac yn cael eu gweithredu'n gyson gan y sawl sy'n ymwneud â chyflwyno ei raglenni addysg uwch, a chan y myfyrwyr lle bo hynny'n briodol;
- bod swyddogaethau a chyfrifoldebau clir ar bob lefel yn y sefydliad, sy'n ymwneud â'i strwythurau a'i systemau llywodraethu ar gyfer rheoli ei ddarpariaeth o ran addysg uwch;
- bod arweinyddiaeth academaidd drylwyr a chryf ar waith ar draws ei holl ddarpariaeth o ran addysg uwch;
- bod y sefydliad yn datblygu, yn gweithredu ac yn cyfleu ei bolisïau a'i systemau academaidd mewn cydweithrediad â'r sawl sy'n gyfrifol am gyflwyno ei raglenni addysg uwch, ac mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid perthnasol;

- bod ei bolisïau, ei systemau a'i weithgareddau academaidd yn cael eu monitro a'u hadolygu a bod camau gweithredu priodol ac amserol yn cael eu cymryd pan fydd diffygion yn cael eu nodi;

- bod ei strategaethau ar gyfer rheoli newid a risg academaidd yn effeithiol;

- bod ganddo systemau cadarn ar waith i sicrhau nad yw safonau academaidd ei ddyfarniadau addysg uwch yn cael eu peryglu; a

- bod ganddo'r gallu i reoli'n llwyddiannus y cyfrifoldebau ychwanegol a fyddai'n cael eu hymddiried iddo pe bai'n cael pwerau dyfarnu graddau a addysgir.

## B: Safonau academaidd a sicrhau ansawdd

### *Maen prawf B1*

Mae gan sefydliad a gaiff bwerau i ddyfarnu graddau a addysgir fframwaith rheoleiddio priodol ar waith i lywodraethu'r modd y caiff ei gymwysterau addysg uwch eu dyfarnu.

### Esboniad

Mae diogelwch safonau academaidd graddau, a chymwysterau addysg uwch eraill, yn dibynnu i raddau helaeth ar y rheoliadau sy'n llywodraethu'r modd y cânt eu dyfarnu. Gellir disgwyl i'r rheoliadau hynny ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion sy'n amrywio o'r broses o gymeradwyo cynlluniau gradd i'r broses o asesu myfyrwyr a chynnal apeliadau yn erbyn penderfyniadau academaidd. Ymdrinnir â llawer o'r materion hynny yn yr *UK Quality Code for Higher Education*, a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Mae'n ofynnol i sefydliadau sy'n dyfarnu graddau gael cyfres gynhwysfawr o reoliadau sy'n ymdrin â'r materion hyn.

### Gofyniad o ran tystiolaeth

Bydd yn ofynnol i'r sefydliad sy'n cyflwyno cais ddarparu tystiolaeth o'r canlynol:

- bod y fframwaith rheoleiddio sy'n llywodraethu ei ddarpariaeth o ran addysg uwch (sy'n ymdrin, er enghraifft, â threfniadau derbyn myfyrwyr, cynnydd, gwaith asesu, apeliadau a chwynion) yn briodol i'w statws cyfredol, a bod y fframwaith yn cael ei weithredu'n llawn ac yn gyson; a

- bod ganddo fframwaith rheoleiddio mewn golwg, sy'n briodol ar gyfer rhoi ei ddyfarniadau addysg uwch ei hun.

### *Maen prawf B2*

Mae gan sefydliad a gaiff bwerau i ddyfarnu graddau a addysgir systemau clir a weithredir yn gyson ar gyfer diffinio a sicrhau safonau academaidd ei ddarpariaeth o ran addysg uwch.

### Esboniad

Mae angen i sefydliadau sydd â phwerau dyfarnu graddau yn y DU sicrhau bod eu cymwysterau'n bodloni disgwyliadau'r *UK Quality Code for Higher Education*, a gyhoeddwyd ac a gynhelir ar ran y gymuned academaidd yn y DU gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Yn

yr *UK Quality Code*, caiff y gwahanol lefelau o gymwysterau addysg uwch a'u nodweddion gwahaniaethol eu disgrifio yn adran berthnasol y Fframweithiau Cymwysterau. Er mwyn bodloni'r disgwyliadau hyn, bydd angen i sefydliadau sy'n gofyn am bwerau dyfarnu graddau sicrhau bod ganddynt strwythurau a systemau priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer sicrhau ansawdd. Oherwydd bod budd cyhoeddus i gysondeb a chymharedd cymwysterau addysg uwch, dylai pob gradd a ddyfernir gan sefydliadau cydnabyddedig dyfarnu graddau yn y DU o leiaf fodloni disgwyliadau'r *UK Quality Code*.

**Gofyniad o ran tystiolaeth**

Bydd yn ofynnol i'r sefydliad sy'n cyflwyno cais ddarparu tystiolaeth o'r canlynol:

- bod ei ddyfarniadau addysg uwch yn cael eu cynnig ar lefelau sy'n cyfateb i lefelau perthnasol y Fframweithiau Cymwysterau;
- bod y modd y caiff ei ddarpariaeth o ran addysg uwch ei rheoli'n rhoi ystyriaeth briodol i'r UK Quality Code, datganiadau nodweddion, fframweithiau credydau, datganiadau meincnodau pynciau perthnasol, a gofynion unrhyw gyrff proffesiynol a statudol perthnasol;
- bod y sefydliad – wrth sefydlu, ac yna cynnal, cymharedd safonau â sefydliadau eraill sy'n darparu rhaglenni ar lefel gyfatebol – yn gofyn yn benodol am gyngor gan gymheiriaid allanol a chan gyrff proffesiynol a statudol lle bo hynny'n briodol;
- bod ei drefniadau ar gyfer cymeradwyo, monitro ac adolygu rhaglenni'n gadarn, eu bod yn cael eu gweithredu'n gyson, bod ganddynt ddimensiwn allanol cyffredinol ar bob lefel a'u bod yn rhoi ystyriaeth briodol i ofynion penodol gwahanol lefelau dyfarnu a gwahanol ddulliau cyflwyno; a
- bod perthynas benodol ac agos rhwng gwaith cynllunio academaidd a phenderfyniadau ynghylch dyrannu adnoddau.

***Maen prawf B3***

Mae'r ddarpariaeth o ran addysg a gynigir gan sefydliad a gaiff bwerau i ddyfarnu graddau a addysgir yn cyflawni'n gyson yr amcanion dysgu a nodwyd ganddo a'r deilliannau a fwriadwyd ganddo.

**Esboniad**

Disgwylir i sefydliadau sy'n cynnig dyfarniadau addysg uwch ystyried yn ofalus ddibenion ac amcanion y rhaglenni y maent yn eu cynnig. Disgwylir hefyd iddynt ddylunio eu cwricwla a'u darpariaeth o ran cymorth dysgu mewn modd a fydd yn rhoi'r cyfle gorau i fyfyrwyr diwyd gyflawni'r dibenion a'r amcanion a'r safonau academaidd angenrheidiol ar gyfer y cymhwyster a geisir. Rhaid bod gan sefydliadau sy'n cynnig dyfarniadau addysg uwch ddulliau o gadarnhau drostynt eu hunain bod eu bwriadau'n cael eu cyflawni mewn gwirionedd.

## Gofyniad o ran tystiolaeth

Bydd yn ofynnol i'r sefydliad sy'n cyflwyno cais ddarparu tystiolaeth o'r canlynol:

- bod ei strategaethau ar gyfer dysgu ac asesu'n gyson â'r amcanion academaidd a nodwyd a'r deilliannau dysgu a fwriadwyd;
- bod y staff perthnasol yn cael gwybod ac yn cael canllawiau ynghylch ei bolisïau a'i weithdrefnau ar gyfer dylunio, monitro ac adolygu rhaglenni;
- bod y cyfrifoldeb am ddiwygio neu wella cynigion newydd ynghylch rhaglenni'n cael ei bennu'n glir a bod camau gweithredu dilynol yn cael eu monitro'n ofalus;
- bod cydlyniaeth rhaglenni sydd ag amryw elfennau neu lwybrau amgen yn cael ei sicrhau a'i chynnal;
- bod cysylltiadau agos yn cael eu cynnal rhwng gwasanaethau cymorth dysgu a threfniadau'r sefydliad ar gyfer cynllunio, cymeradwyo, monitro ac adolygu rhaglenni;
- bod trefniadau cadarn ar waith ar gyfer sicrhau bod y cyfleoedd dysgu a ddarperir i'w fyfyrwyr a allai fod yn astudio o bell yn ddigonol;
- bod y sefydliad – drwy ei arferion cynllunio, cymeradwyo, adolygu ac asesu – yn diffinio, yn monitro, yn adolygu ac yn cynnal ei safonau academaidd;
- bod ei feini prawf a'i arferion asesu'n cael eu cyfleu'n glir i'r myfyrwyr a'r staff;
- bod ei arferion asesu'n ymdrin yn llawn â'r holl amcanion dysgu, yr holl ddeilliannau dysgu a'r holl ddulliau cyflwyno a nodwyd;
- bod cymheiriaid allanol cymwys yn ymwneud â'i brosesau asesu a bod cysondeb yn cael ei gynnal rhwng gwaith marcio arholwyr mewnol ac allanol;
- bod dibynadwyedd a dilysrwydd ei weithdrefnau asesu'n cael eu monitro a bod ei ganlyniadau asesu'n sail i waith cynllunio yng nghyswllt rhaglenni a myfyrwyr yn y dyfodol; a
- bod systemau clir ar waith i'w defnyddio pan benderfynir cau rhaglen neu elfen o raglen, ac wrth wneud hynny bod buddiannau'r myfyrwyr yn cael eu diogelu.

### *Maen prawf B4*

Mae sefydliad a gaiff bwerau i ddyfarnu graddau a addysgir yn cymryd camau effeithiol i hybu cryfderau ac ymateb i gyfyngiadau a nodir.

## Esboniad

Rhaid bod gan sefydliad sydd â phwerau i ddyfarnu ei raddau a addysgir ei hun ddulliau o adolygu ei berfformiad ei hun yn feirniadol. Mae angen iddo wybod sut y mae'n perfformio o gymharu â sefydliadau tebyg eraill a rhaid bod ganddo systemau cadarn ar gyfer rhannu arfer da; rhaid hefyd ei fod yn gallu adnabod cyfyngiadau neu ddiffygion yn ei weithgareddau ei hun

a'i fod yn gallu cymryd camau unioni amserol ac effeithiol pan fo angen. Mae hynny'n golygu bod angen cynnwys elfennau mewnol ac allanol yn ei drefniadau ar gyfer adolygu ei weithgareddau'n rheolaidd.

**Gofyniad o ran tystiolaeth**

Bydd yn ofynnol i'r sefydliad sy'n cyflwyno cais ddarparu tystiolaeth o'r canlynol:

- bod hunanasesu beirniadol yn rhan annatod o'r modd y mae ei ddarpariaeth o ran addysg uwch yn gweithredu a bod camau'n cael eu cymryd i ymateb i unrhyw faterion a godir drwy waith monitro ac adolygu mewnol neu allanol;

- bod systemau clir ar waith ar gyfer pennu a chyflawni camau gweithredu sy'n ymwneud â chraffu ar amcanion dysgu a gytunwyd a deilliannau a fwriadwyd a'u monitro a'u hadolygu;

- bod syniadau ac arbenigedd o'r tu mewn a'r tu allan i'r sefydliad (er enghraifft ynghylch dylunio a datblygu rhaglenni, ynghylch addysgu, ac ynghylch yr hyn y mae myfyrwyr yn ei ddysgu a'r modd y cânt eu hasesu) yn cael eu cynnwys yn ei drefniadau ar gyfer dylunio, cymeradwyo ac adolygu rhaglenni; a

- bod dulliau effeithiol ar waith i hybu camau parhaus i wella ansawdd y ddarpariaeth a chyflawniad myfyrwyr.

**<u>C: Ysgolheictod ac effeithiolrwydd pedagogaidd staff academaidd</u>**

***Maen prawf C1***

Bydd staff sefydliad a gaiff bwerau i ddyfarnu graddau a addysgir yn gymwys i addysgu, hwyluso dysgu, ac asesu i lefel y cymwysterau a ddyfernir.

**Esboniad**

Mae gallu a chymhwysedd y staff sy'n addysgu, ac sy'n hwyluso ac yn asesu dysgu, yn ganolog i werth yr addysg a gynigir i fyfyrwyr. Mae cyfrifoldeb allweddol ar sefydliadau sy'n dyfarnu eu graddau eu hunain i sicrhau bod cyfleoedd myfyrwyr i gael addysg werth chweil a chyrraedd y safonau academaidd angenrheidiol ar gyfer eu cymhwyster yn cael eu cynyddu gan addysgu effeithiol. Mae'n cynnwys cyfrifoldeb i sicrhau bod staff yn cynnal dealltwriaeth fanwl a phroffesiynol o ddatblygiadau cyfredol ym maes ymchwil ac ysgolheictod yn eu pynciau, a bod cyfleoedd strwythuredig ar gael yn hwylus iddynt wneud hynny ac y manteisir arnynt yn helaeth. Mae hefyd yn golygu y dylai'r addysgu ar gyfer cymwysterau ar lefel gradd adlewyrchu – mewn modd gofalus, ymwybodol a heriol o safbwynt deallusol – y datblygiadau diweddaraf yn y pwnc a astudir. Yn achos sefydliadau sy'n cynnig doethuriaethau yr ymgymerir â nhw'n gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyrsiau addysgu, mae'n arbennig o bwysig bod yr addysgu'n cael ei gyflawni gan staff sy'n gyfranogwyr gweithgar a chydnabyddedig ym maes ymchwil a/neu ysgolheictod uwch. Yn ogystal mae cyfrifoldeb ar sefydliadau i sicrhau bod eu myfyrwyr yn cael eu hasesu mewn modd proffesiynol a chyson sy'n sicrhau bod safonau academaidd eu graddau'n cael eu cynnal.

**Gofyniad o ran tystiolaeth**

Bydd yn ofynnol i'r sefydliad sy'n cyflwyno cais ddarparu tystiolaeth bod yr holl staff addysgu sy'n ymwneud â chyflwyno ei raglenni addysg uwch:

- yn meddu ar arbenigedd academaidd a/neu broffesiynol perthnasol;

- yn ymwneud mewn modd perthnasol â datblygiad pedagogaidd eu disgyblaeth (drwy, er enghraifft, fod yn aelodau o gymdeithasau pynciau, cymdeithasau dysgedig a chyrff proffesiynol);

- yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth berthnasol ynghylch gwaith ymchwil cyfredol ac ysgolheictod uwch ym maes eu disgyblaeth, a bod y wybodaeth a'r ddealltwriaeth dan sylw'n llywio ac yn gwella eu haddysgu'n uniongyrchol; ac (yn achos y sawl sy'n addysgu ar raglenni doethurol a gynigir yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyrsiau addysgu) eu bod yn ymwneud yn weithgar ac yn bersonol â gwaith ymchwil a/neu ysgolheictod uwch i lefel sy'n gymesur â'r graddau a gynigir; ac

- yn cael cyfleoedd perthnasol o safbwynt datblygu ac arfarnu staff, y bwriedir iddynt eu galluogi i ddatblygu a gwella eu cymhwysedd proffesiynol a'u hysgolheictod.

Yn ogystal bydd yn ofynnol i'r sefydliad sy'n cyflwyno cais ddarparu tystiolaeth bod y staff sydd â chyfrifoldebau allweddol am reoli rhaglenni (er enghraifft, arweinwyr rhaglen a chydgysylltwyr asesu):

- yn meddu ar brofiad perthnasol o ddatblygu cwricwlwm a dylunio dulliau asesu; ac

- yn ymwneud â gweithgareddau darparwyr addysg uwch mewn sefydliadau eraill (drwy, er enghraifft, fod yn arholwyr allanol, yn aelodau o banelau dilysu neu'n adolygwyr allanol).

## Ch: Yr amgylchedd sy'n ategu'r gwaith o gyflwyno rhaglenni addysg uwch a addysgir

***Maen prawf Ch1***

Mae seilwaith addysgu a dysgu sefydliad a gaiff bwerau i ddyfarnu graddau a addysgir, gan gynnwys ei drefniadau ar gyfer darparu cymorth i fyfyrwyr a chymorth gweinyddol, yn effeithiol ac yn cael ei fonitro.

**Esboniad**

Mae'r seilwaith addysgu a dysgu – yr holl gyfleusterau a'r holl weithgareddau a ddarperir i gynyddu'r cyfleoedd a gaiff myfyrwyr i brofi addysg werth chweil ac ennill y cymhwyster y maent yn ei geisio – yn fodd i gyflawni diben. Disgwylir i sefydliadau sy'n dyfarnu eu graddau eu hunain fod â systemau ar gyfer monitro a yw eu seilwaith addysgu a dysgu'n cyflawni amcanion a nodwyd, a systemau ar gyfer ymateb yn amserol ac yn effeithiol i gyfyngiadau a nodwyd.

**Gofyniad o ran tystiolaeth**

Bydd yn ofynnol i'r sefydliad sy'n cyflwyno cais ddarparu tystiolaeth o'r canlynol:

- bod effeithiolrwydd ei weithgareddau dysgu ac addysgu'n cael ei fonitro o safbwynt amcanion academaidd a nodwyd a deilliannau dysgu a fwriadwyd;
- bod myfyrwyr yn cael gwybod yn brydlon am ganlyniadau asesiadau;
- bod adborth adeiladol yn cael ei roi i fyfyrwyr ynghylch eu perfformiad, sy'n hybu eu datblygiad;
- bod adborth gan fyfyrwyr, staff a (lle bo'n bosibl) cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill y sefydliad yn cael ei gasglu a'i werthuso, a bod systemau clir ar waith i roi adborth i'r holl bobl hynny;
- bod myfyrwyr yn cael gwybod am eu rhaglenni astudio, ac yn cael eu cyflwyno iddynt, mewn modd effeithiol a bod anghenion amryw fyfyrwyr yn cael eu hystyried;
- bod y deunyddiau cymorth dysgu sydd ar gael yn ddigonol i gynorthwyo myfyrwyr i gyflawni'r dibenion a nodwyd ar gyfer eu rhaglenni astudio;
- bod effeithiolrwydd unrhyw wasanaethau cynghori a chwnsela i fyfyrwyr a staff yn cael ei fonitro a bod unrhyw anghenion sy'n codi o ran adnoddau'n cael eu hystyried;
- bod ei systemau cymorth gweinyddol yn gallu monitro cynnydd a pherfformiad myfyrwyr yn gywir ac yn gallu darparu gwybodaeth amserol a chywir i ddiwallu anghenion o ran gwybodaeth reoli sy'n academaidd ac yn anacademaidd;
- bod ganddo systemau effeithiol a chyfrinachol ar waith i ymdrin â phob cwyn am faterion academaidd ac anacademaidd;
- bod y staff sy'n ymwneud â chynorthwyo'r sefydliad i gyflwyno ei ddarpariaeth o ran addysg uwch yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol;
- bod y wybodaeth y mae'n ei chynhyrchu am ei ddarpariaeth o ran addysg uwch yn gywir ac yn gyflawn; a
- bod cyfle cyfartal yn nod y mae'n ymgyrraedd ato a'i fod yn cyrraedd y nod hwnnw.

## Adran 2: Meini prawf ar gyfer rhoi pwerau dyfarnu graddau ymchwil

### *Maen prawf 1*

Mae'r modd y mae'r sefydliad yn goruchwylio ei fyfyrwyr ymchwil, ac unrhyw addysgu y mae'n ymgymryd ag ef ar lefel ddoethurol, wedi'i seilio ar lefel uchel o wybodaeth broffesiynol am waith ymchwil cyfredol a gweithgarwch ysgolheigaidd uwch yn ei bynciau astudio.

**Esboniad**

Mae dyfarnu graddau sy'n cydnabod y gwaith o greu a dehongli gwybodaeth newydd, drwy waith ymchwil gwreiddiol neu ffurfiau eraill ar ysgolheictod uwch, yn rhoi cyfrifoldeb penodol a sylweddol ar gorff dyfarnu. Felly, dylai staff academaidd y sefydliad ennyn parch a hyder ymysg eu cymheiriaid academaidd ar draws y sector addysg uwch, fel pobl sy'n deilwng o gyflwyno rhaglenni graddau ymchwil. Dylai fod gan sefydliadau sy'n dymuno cynnig graddau ymchwil ddiwylliant sylfaenol cryf sy'n annog ac yn hybu ymchwil ac ysgolheictod creadigol o safon ymysg staff academaidd y sefydliad, ei fyfyrwyr doethurol a'i fyfyrwyr ymchwil eraill.

**Gofyniad o ran tystiolaeth**

Bydd yn ofynnol i'r sefydliad sy'n cyflwyno cais ddangos bod y staff sy'n ymwneud â chyflwyno ei raglenni graddau ymchwil:

- yn meddu ar wybodaeth, dealltwriaeth a phrofiad perthnasol sylweddol yng nghyswllt gwaith ymchwil cyfredol ac ysgolheictod uwch ym maes eu disgyblaeth a bod y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r profiad dan sylw'n llywio ac yn gwella eu goruchwyliaeth a'u haddysgu'n uniongyrchol; a

- yn cael cyfleoedd perthnasol o safbwynt datblygu ac arfarnu staff, y bwriedir iddynt eu galluogi i ddatblygu a gwella eu gwybodaeth am waith ymchwil cyfredol ac ysgolheictod uwch.

Yn ogystal bydd yn ofynnol i'r sefydliad sy'n cyflwyno cais ddarparu tystiolaeth o'r canlynol:

- bod cyfran sylweddol o'i staff academaidd llawn-amser (o leiaf tua hanner fel rheol) yn gyfranwyr gweithgar a chydnabyddedig i gymdeithasau pynciau, cymdeithasau dysgedig a chyrff proffesiynol perthnasol;

- bod cyfran sylweddol o'i staff academaidd (o leiaf tua un o bob tri fel rheol) wedi cael profiad personol diweddar (hynny yw, yn ystod y tair blynedd diwethaf) o weithgarwch ymchwil mewn sefydliadau prifysgol eraill yn y DU neu dramor drwy, er enghraifft, fod yn arholwyr allanol ar gyfer graddau ymchwil, bod yn aelodau o banelau dilysu/adolygu, neu gyfrannu i brosiectau ymchwil cydweithredol gyda sefydliadau eraill; a

- bod cyfran sylweddol o'i staff academaidd (o leiaf tua un o bob tri fel rheol) sy'n ymwneud â gwaith ymchwil neu ffurfiau eraill ar ysgolheictod uwch yn gallu dangos tasgau a gyflawnwyd y mae'r gymuned academaidd ehangach yn cydnabod eu bod o statws cenedlaethol a/neu ryngwladol (er enghraifft, fel y nodwyd gan adolygiadau awdurdodol gan gymheiriaid allanol).

### *Maen prawf 2*

Mae'r sefydliad yn bodloni canllawiau cenedlaethol perthnasol sy'n ymwneud â dyfarnu graddau ymchwil.

### Gofyniad o ran tystiolaeth

Bydd yn ofynnol i'r sefydliad sy'n cyflwyno cais ddangos ei fod yn bodloni, neu fod ganddo'r gallu i fodloni, disgwyliadau'r canlynol:

- y Fframweithiau Cymwysterau sy'n ymwneud â lefelau ei raglenni graddau ymchwil;
- yr UK Quality Code for Higher Education; a
- fframweithiau rheoli graddau ymchwil a gyhoeddir gan gynghorau ymchwil perthnasol, cyrff cyllido a chyrff proffesiynol/statudol.

### *Maen prawf 3*

Mae'r sefydliad sy'n cyflwyno cais wedi llwyddo i roi dros 30 o raddau doethurol, a ddyfarnwyd drwy brifysgolion partner yn y DU.

## Adran 3: Meini prawf ar gyfer rhoi pwerau dyfarnu graddau sylfaen

**<u>Cyflwyniad</u>**

Bwriad meini prawf A-Ch yn y ddogfen hon, o'u cymryd yn eu cyfanrwydd, yw ei gwneud yn bosibl llunio barn ynghylch a yw sefydliad addysg bellach sy'n cyflwyno cais yn bodloni'r gofyniad trosfwaol a nodir yn natganiad Tŷ'r Cyffredin. Mae'r meini prawf yn asesu gallu'r ymgeisydd i ddangos ei fod yn gwarchod ei safonau academaidd yn gadarn, a'i allu i gyfrannu i barhad statws da addysg uwch yn y DU.

**<u>A: Llywodraethu a rheolaeth academaidd</u>**

***Maen prawf A1***

Mae sefydliad addysg bellach a gaiff bwerau i ddyfarnu graddau sylfaen yn cael ei lywodraethu, ei reoli a'i weinyddu'n effeithiol, ac mae ganddo linellau atebolrwydd clir a phriodol ar gyfer ei gyfrifoldebau academaidd. Mae ei reolaeth ariannol yn gadarn ac mae perthynas glir yn bodoli rhwng ei bolisi ariannol a'i drefniadau ar gyfer diogelu ansawdd a safonau ei ddarpariaeth o ran addysg uwch. Fel sy'n wir yn gyffredinol am sefydliadau eraill a gaiff bwerau dyfarnu graddau, nad ydynt yn sefydliadau addysg uwch yn bennaf, mae ei brif weithgareddau'n gydnaws â'r gwaith o ddarparu rhaglenni a dyfarniadau addysg uwch.

**Esboniad**

Rhaid bod gan sefydliadau addysg bellach sy'n dyfarnu graddau sylfaen sylfeini cadarn ym mhob ffordd (o safbwynt cyfansoddiadol, ariannol ac academaidd ac o safbwynt y modd y cânt eu rheoli) er mwyn i'r cyhoedd allu bod â hyder llwyr yn y sefydliadau a'u graddau sylfaen. Mae'n bwysig bod trefniadau diogelu priodol ar waith i sicrhau nad yw cyfyngderau ariannol a phwysau eraill yn peryglu safonau academaidd nac ansawdd rhaglenni fel y nodir ym manylebau'r rhaglenni.

**Gofyniad o ran tystiolaeth**

Bydd yn ofynnol i'r sefydliad addysg bellach sy'n cyflwyno cais ddarparu tystiolaeth o'r canlynol:

- bod ei bolisïau cynllunio ariannol, sicrhau ansawdd a dyrannu adnoddau'n gydlynol ac yn ymwneud â'i genhadaeth, ei nodau a'i amcanion ar gyfer addysg uwch;
- bod ei weithgareddau addysg uwch yn rhoi ystyriaeth lawn i'r *UK Quality Code for Higher Education* a chanllawiau cysylltiedig;
- bod cyfeiriad yn cael ei wneud at ddatganiad yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, sy'n dwyn y teitl *Characteristics Statement: Foundation Degree* ac sy'n rhan o'r *UK Quality Code*;
- bod ei genhadaeth ar gyfer addysg uwch a'i bolisïau a'i systemau cysylltiedig wedi'u deall ac yn cael eu gweithredu'n gyson gan y sawl sy'n ymwneud â

chyflwyno ei raglenni addysg uwch, a chan y myfyrwyr lle bo hynny'n briodol;

- bod swyddogaethau a chyfrifoldebau clir ar bob lefel yn y sefydliad addysg bellach, sy'n ymwneud â'i strwythurau a'i systemau llywodraethu ar gyfer rheoli ei ddarpariaeth o ran addysg uwch;
- bod arweinyddiaeth academaidd drylwyr a chryf ar waith ar draws ei holl ddarpariaeth o ran addysg uwch;
- bod y sefydliad yn datblygu, yn gweithredu ac yn cyfleu ei bolisïau a'i systemau academaidd mewn cydweithrediad â'r sawl sy'n gyfrifol am gyflwyno ei raglenni addysg uwch, ac mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid perthnasol;
- bod ei bolisïau, ei systemau a'i weithgareddau academaidd yn cael eu monitro a'u hadolygu a bod camau gweithredu priodol ac amserol yn cael eu cymryd pan fydd diffygion yn cael eu nodi;
- bod ei strategaethau ar gyfer rheoli newid a risg academaidd yn effeithiol;
- bod ganddo systemau cadarn ar waith i sicrhau nad yw safonau academaidd ei ddyfarniadau o ran graddau sylfaen yn cael eu peryglu; a
- bod ganddo'r gallu i reoli'n llwyddiannus y cyfrifoldebau ychwanegol a fyddai'n cael eu hymddiried iddo pe bai'n cael pwerau dyfarnu graddau sylfaen.

## B: Safonau academaidd a sicrhau ansawdd

***Maen prawf B1***

Mae gan sefydliad addysg bellach a gaiff bwerau i ddyfarnu graddau sylfaen fframwaith rheoleiddio priodol ar waith i lywodraethu'r modd y caiff ei gymwysterau addysg uwch eu dyfarnu.

**Esboniad**

Mae diogelwch safonau academaidd graddau sylfaen yn dibynnu i raddau helaeth ar y rheoliadau sy'n llywodraethu'r modd y cânt eu dyfarnu. Gellir disgwyl i'r rheoliadau hynny ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion sy'n amrywio o'r broses o gymeradwyo cynlluniau gradd i'r broses o asesu myfyrwyr a chynnal apeliadau yn erbyn penderfyniadau academaidd. Ymdrinnir â llawer o'r materion hynny yn yr *UK Quality Code for Higher Education*, a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Mae'n ofynnol i sefydliadau addysg bellach sy'n dyfarnu graddau sylfaen gael cyfres gynhwysfawr o reoliadau sy'n ymdrin â'r materion hyn.

**Gofyniad o ran tystiolaeth**

Bydd yn ofynnol i'r sefydliad addysg bellach sy'n cyflwyno cais ddarparu tystiolaeth o'r canlynol:

- bod y fframwaith rheoleiddio sy'n llywodraethu ei ddarpariaeth o ran addysg uwch (sy'n ymdrin, er enghraifft, â threfniadau derbyn myfyrwyr, cynnydd, gwaith asesu,

apeliadau a chwynion) yn briodol i'w statws cyfredol, a bod y fframwaith yn cael ei weithredu'n llawn ac yn gyson; a

- bod y sefydliad wedi creu fframwaith rheoleiddio'n barod sy'n briodol ar gyfer rhoi ei ddyfarniadau addysg uwch ei hun.

***Maen prawf B2***

Mae gan sefydliad addysg bellach a gaiff bwerau i ddyfarnu graddau sylfaen systemau clir a weithredir yn gyson ar gyfer diffinio a sicrhau safonau academaidd ei ddarpariaeth o ran addysg uwch – ble bynnag, sut bynnag a chan bwy bynnag y caiff y ddarpariaeth ei chynnig.

**Esboniad**

Mae angen i sefydliadau addysg bellach sydd â phwerau dyfarnu graddau sylfaen sicrhau bod eu cymwysterau'n bodloni disgwyliadau'r *UK Quality Code for Higher Education*, a gyhoeddwyd ac a gynhelir ar ran y gymuned academaidd yn y DU gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Yn yr *UK Quality Code*, caiff y gwahanol lefelau o gymwysterau addysg uwch a'u nodweddion gwahaniaethol eu disgrifio yn y *Framework for Higher Education Qualifications of Degree Awarding Bodies in England, Wales and Northern Ireland*. Er mwyn bodloni'r disgwyliadau hyn, bydd angen i sefydliadau addysg bellach sy'n gofyn am bwerau dyfarnu graddau sicrhau bod ganddynt strwythurau a systemau priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer sicrhau ansawdd. Mae hynny'n arbennig o bwysig os caiff elfennau o raglen eu cynnig y tu allan i amgylchedd y coleg ei hun. Oherwydd bod budd cyhoeddus i gysondeb a chymharedd cymwysterau addysg uwch, dylai pob gradd a ddyfernir gan sefydliadau cydnabyddedig dyfarnu graddau yn y DU o leiaf fodloni disgwyliadau'r Fframwaith.

**Gofyniad o ran tystiolaeth**

Bydd yn ofynnol i'r sefydliad addysg bellach sy'n cyflwyno cais ddarparu tystiolaeth o'r canlynol:

- bod ei ddyfarniadau addysg uwch yn cael eu cynnig ar lefelau sy'n cyfateb i lefelau perthnasol y *Framework for Higher Education Qualifications*;

- bod y modd y caiff ei ddarpariaeth o ran addysg uwch ei rheoli'n rhoi ystyriaeth briodol i'r *UK Quality Code for Higher Education*, datganiadau nodweddion, fframweithiau credydau, datganiadau meincnodau pynciau perthnasol, a gofynion unrhyw gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol perthnasol;

- bod y sefydliad – wrth sefydlu, ac yna cynnal, cymharedd safonau â sefydliadau eraill sy'n darparu rhaglenni ar lefel gyfatebol – yn gofyn yn benodol am gyngor gan gymheiriaid allanol a chan gyrff proffesiynol a statudol a chyflogwyr perthnasol lle bo hynny'n briodol, a'i fod yn ceisio ymgysylltu â nhw;

- bod ei drefniadau ar gyfer cymeradwyo, monitro ac adolygu rhaglenni'n gadarn, eu bod yn cael eu gweithredu'n gyson, bod ganddynt ddimensiwn allanol cyffredinol

ar bob lefel a'u bod yn rhoi ystyriaeth briodol i ofynion penodol gwahanol lefelau dyfarnu a gwahanol ddulliau cyflwyno;

- bod systemau priodol ac effeithiol ar gyfer sicrhau ansawdd yn cael eu defnyddio i sicrhau bod safonau academaidd ac ansawdd yn cael eu cynnal, os yw rhaglenni'r sefydliad yn cael eu cyflwyno y tu allan i amgylchedd y coleg ei hun; a
- bod perthynas benodol ac agos rhwng gwaith cynllunio academaidd a phenderfyniadau ynghylch dyrannu adnoddau.

***Maen prawf B3***

Mae'r ddarpariaeth o ran addysg a gynigir gan sefydliad addysg bellach a gaiff bwerau i ddyfarnu graddau sylfaen yn cyflawni'n gyson yr amcanion dysgu a nodwyd ganddo a'r deilliannau a fwriadwyd ganddo.

**Esboniad**

Disgwylir i sefydliadau addysg bellach sy'n cynnig dyfarniadau addysg uwch ystyried yn ofalus ddibenion ac amcanion y rhaglenni y maent yn eu cynnig. Disgwylir hefyd iddynt ddylunio eu cwricwla a'u darpariaeth o ran cymorth dysgu mewn modd a fydd yn rhoi'r cyfle gorau i fyfyrwyr diwyd gyflawni'r dibenion a'r amcanion a'r safonau academaidd angenrheidiol ar gyfer y cymhwyster a geisir. Rhaid bod gan sefydliadau addysg bellach sy'n cynnig dyfarniadau addysg uwch ddulliau o gadarnhau drostynt eu hunain bod eu bwriadau'n cael eu cyflawni mewn gwirionedd.

**Gofyniad o ran tystiolaeth**

Bydd yn ofynnol i'r sefydliad addysg bellach sy'n cyflwyno cais ddarparu tystiolaeth o'r canlynol:

- bod ei strategaethau ar gyfer dysgu ac asesu'n gyson â'r amcanion academaidd a nodwyd a'r deilliannau dysgu a fwriadwyd;
- bod y staff perthnasol yn cael gwybod ac yn cael canllawiau ynghylch ei bolisïau a'i weithdrefnau ar gyfer dylunio, monitro ac adolygu rhaglenni;
- bod y cyfrifoldeb am ddiwygio neu wella cynigion newydd ynghylch rhaglenni'n cael ei bennu'n glir a bod camau gweithredu dilynol yn cael eu monitro'n ofalus;
- bod cydlyniaeth rhaglenni sydd ag amryw elfennau neu lwybrau amgen yn cael ei sicrhau a'i chynnal;
- bod cysylltiadau agos yn cael eu cynnal rhwng gwasanaethau cymorth dysgu a threfniadau'r sefydliad addysg bellach ar gyfer cynllunio, cymeradwyo, monitro ac adolygu rhaglenni;
- bod trefniadau cadarn ar waith ar gyfer sicrhau bod y cyfleoedd dysgu a ddarperir i'w fyfyrwyr a allai fod yn astudio o bell neu mewn gweithleoedd yn ddigonol;

- bod y sefydliad – drwy ei arferion cynllunio, cymeradwyo, adolygu ac asesu – yn diffinio, yn monitro, yn adolygu ac yn cynnal ei safonau academaidd;

- bod ei feini prawf a'i arferion asesu'n cael eu cyfleu'n glir i'r myfyrwyr a'r staff;

- bod ei arferion asesu'n ymdrin yn llawn â'r holl amcanion dysgu, yr holl ddeilliannau dysgu a'r holl ddulliau cyflwyno a nodwyd;

- bod cymheiriaid allanol cymwys yn ymwneud â'i brosesau asesu a bod cysondeb yn cael ei gynnal rhwng gwaith marcio arholwyr mewnol ac allanol;

- bod dibynadwyedd a dilysrwydd ei weithdrefnau asesu'n cael eu monitro a bod ei ganlyniadau asesu'n sail i waith cynllunio yng nghyswllt rhaglenni a myfyrwyr yn y dyfodol; a

- bod systemau clir ar waith i'w defnyddio pan benderfynir cau rhaglen neu elfen o raglen, ac wrth wneud hynny bod buddiannau'r myfyrwyr yn cael eu diogelu.

***Maen prawf B4***

Mae sefydliad addysg bellach a gaiff bwerau i ddyfarnu graddau sylfaen yn cymryd camau effeithiol i hybu cryfderau ac ymateb i gyfyngiadau a nodir.

**Esboniad**

Rhaid bod gan sefydliad addysg bellach sydd â phwerau i ddyfarnu ei raddau sylfaen ei hun ddulliau o adolygu ei berfformiad ei hun yn feirniadol. Mae angen iddo wybod sut y mae'n perfformio o gymharu â sefydliadau tebyg eraill a rhaid bod ganddo systemau cadarn ar gyfer rhannu arfer da; rhaid hefyd ei fod yn gallu adnabod cyfyngiadau neu ddiffygion yn ei weithgareddau ei hun a'i fod yn gallu cymryd camau unioni amserol ac effeithiol pan fo angen. Mae hynny'n golygu bod angen cynnwys elfennau mewnol ac allanol yn ei drefniadau ar gyfer adolygu ei weithgareddau'n rheolaidd.

**Gofyniad o ran tystiolaeth**

Bydd yn ofynnol i'r sefydliad addysg bellach sy'n cyflwyno cais ddarparu tystiolaeth o'r canlynol:

- bod hunanasesu beirniadol yn rhan annatod o'r modd y mae ei ddarpariaeth o ran addysg uwch yn gweithredu a bod camau'n cael eu cymryd i ymateb i unrhyw faterion a godir drwy waith monitro ac adolygu mewnol neu allanol;

- bod systemau clir ar waith ar gyfer pennu a chyflawni camau gweithredu sy'n ymwneud â chraffu ar amcanion dysgu a gytunwyd a deilliannau a fwriadwyd a'u monitro a'u hadolygu;

- bod syniadau ac arbenigedd o'r tu mewn a'r tu allan i'r sefydliad addysg bellach, yn enwedig gan gyflogwyr perthnasol (er enghraifft ynghylch dylunio a datblygu rhaglenni, ynghylch addysgu, ac ynghylch yr hyn y mae myfyrwyr yn ei ddysgu a'r

modd y cânt eu hasesu) yn cael eu cynnwys yn ei drefniadau ar gyfer dylunio, cymeradwyo ac adolygu rhaglenni; a

- bod dulliau effeithiol ar waith i hybu camau parhaus i wella ansawdd y ddarpariaeth a chyflawniad myfyrwyr.

## C: Ysgolheictod ac effeithiolrwydd pedagogaidd staff academaidd

### *Maen prawf C1*

Bydd staff sefydliad addysg bellach a gaiff bwerau i ddyfarnu graddau sylfaen yn gymwys i addysgu, hwyluso dysgu, ac asesu i lefel y cymwysterau a ddyfernir.

### Esboniad

Mae gallu a chymhwysedd y staff sy'n addysgu, ac sy'n hwyluso ac yn asesu dysgu, yn ganolog i werth yr addysg a gynigir i fyfyrwyr. Mae cyfrifoldeb allweddol ar sefydliadau addysg bellach sy'n dyfarnu eu graddau eu hunain i sicrhau bod cyfleoedd myfyrwyr i gael addysg werth chweil a chyrraedd y safonau academaidd angenrheidiol ar gyfer eu cymhwyster gradd sylfaen yn cael eu cynyddu gan addysgu effeithiol. Mae'n cynnwys cyfrifoldeb i sicrhau bod staff yn cynnal dealltwriaeth fanwl a phroffesiynol o ddatblygiadau cyfredol ym maes ysgolheictod yn eu pynciau, a bod cyfleoedd strwythuredig ar gael yn hwylus iddynt wneud hynny ac y manteisir arnynt yn helaeth. Mae hefyd yn golygu y dylai'r addysgu ar gyfer cymwysterau ar lefel gradd adlewyrchu – mewn modd gofalus, ymwybodol a heriol o safbwynt deallusol – y datblygiadau diweddaraf yn y pwnc a astudir. Yn ogystal mae cyfrifoldeb ar sefydliadau addysg bellach i sicrhau bod eu myfyrwyr yn cael eu hasesu mewn modd proffesiynol a chyson sy'n sicrhau bod safonau academaidd eu graddau'n cael eu cynnal.

### Gofyniad o ran tystiolaeth

Bydd yn ofynnol i'r sefydliad addysg bellach sy'n cyflwyno cais ddarparu tystiolaeth bod yr holl staff addysgu sy'n ymwneud â chyflwyno ei raglenni addysg uwch:

- yn meddu ar arbenigedd academaidd a/neu broffesiynol perthnasol;

- yn ymwneud mewn modd perthnasol â datblygiad pedagogaidd eu disgyblaeth (drwy, er enghraifft, fod yn aelodau o gymdeithasau pynciau, cymdeithasau dysgedig a chyrff proffesiynol);

- yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth berthnasol ynghylch datblygiadau ysgolheigaidd cyfredol ym maes eu disgyblaeth, ac ar lefel sy'n briodol i radd sylfaen, a bod y wybodaeth a'r ddealltwriaeth dan sylw'n llywio ac yn gwella eu haddysgu'n uniongyrchol;

- yn cael cyfleoedd i gael profiad gwaith perthnasol ac astudio ymarfer proffesiynol cyfredol a pherthnasol; ac

- yn cael cyfleoedd perthnasol o safbwynt datblygu ac arfarnu staff, y bwriedir iddynt eu galluogi i ddatblygu a gwella eu cymhwysedd proffesiynol a'u hysgolheictod.

Yn ogystal bydd yn ofynnol i'r sefydliad addysg bellach sy'n cyflwyno cais ddarparu tystiolaeth bod y staff sydd â chyfrifoldebau allweddol am reoli rhaglenni (er enghraifft, arweinwyr rhaglen a chydgysylltwyr asesu):

- yn meddu ar brofiad perthnasol o ddatblygu cwricwlwm a dylunio dulliau asesu; ac

- yn ymwneud â gweithgareddau darparwyr addysg uwch mewn sefydliadau eraill (drwy, er enghraifft, fod yn arholwyr allanol, yn aelodau o banelau dilysu neu'n adolygwyr allanol).

<u>**Ch: Yr amgylchedd sy'n ategu'r gwaith o gyflwyno rhaglenni graddau sylfaen**</u>

***Maen prawf Ch1***

Mae seilwaith addysgu a dysgu sefydliad addysg bellach a gaiff bwerau i ddyfarnu graddau sylfaen, gan gynnwys ei drefniadau ar gyfer darparu cymorth i fyfyrwyr a chymorth gweinyddol, yn effeithiol ac yn cael ei fonitro.

**Esboniad**

Mae'r seilwaith addysgu a dysgu – yr holl gyfleusterau a'r holl weithgareddau a ddarperir i gynyddu'r cyfleoedd a gaiff myfyrwyr i brofi addysg werth chweil ac ennill y cymhwyster y maent yn ei geisio – yn fodd i gyflawni diben. Disgwylir i sefydliadau addysg bellach sy'n dyfarnu eu graddau sylfaen eu hunain fod â systemau ar gyfer monitro a yw eu seilwaith addysgu a dysgu'n cyflawni amcanion a nodwyd, a systemau ar gyfer ymateb yn amserol ac yn effeithiol i gyfyngiadau a nodwyd.

**Gofyniad o ran tystiolaeth**

Bydd yn ofynnol i'r sefydliad addysg bellach sy'n cyflwyno cais ddarparu tystiolaeth o'r canlynol:

- bod effeithiolrwydd ei weithgareddau dysgu ac addysgu'n cael ei fonitro o safbwynt amcanion academaidd a nodwyd a deilliannau dysgu a fwriadwyd;

- bod myfyrwyr yn cael gwybod yn brydlon am ganlyniadau asesiadau;

- bod adborth adeiladol yn cael ei roi i fyfyrwyr ynghylch eu perfformiad, sy'n hybu eu datblygiad;

- bod adborth gan fyfyrwyr, staff, cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill y sefydliad yn cael ei gasglu a'i werthuso, a bod systemau clir ar waith i roi adborth i'r holl bobl hynny;

- bod myfyrwyr yn cael gwybod am eu rhaglenni astudio, ac yn cael eu cyflwyno iddynt, mewn modd effeithiol a bod anghenion amryw fyfyrwyr yn cael eu hystyried;

- bod y deunyddiau cymorth dysgu sydd ar gael yn ddigonol i gynorthwyo myfyrwyr i gyflawni'r dibenion a nodwyd ar gyfer eu rhaglenni astudio a bod gan y myfyrwyr i gyd, boed yn fyfyrwyr rhan-amser neu'n fyfyrwyr llawn-amser, fynediad cyfartal i adnoddau dysgu a deunyddiau cymorth;

- bod effeithiolrwydd unrhyw wasanaethau cynghori a chwnsela i fyfyrwyr a staff yn cael ei fonitro a bod unrhyw anghenion sy'n codi o ran adnoddau'n cael eu hystyried;

- bod ei systemau cymorth gweinyddol yn gallu monitro cynnydd a pherfformiad myfyrwyr yn gywir ac yn gallu darparu gwybodaeth amserol a chywir i ddiwallu anghenion o ran gwybodaeth reoli sy'n academaidd ac yn anacademaidd;

- bod ganddo systemau effeithiol a chyfrinachol ar waith i ymdrin â phob cwyn am faterion academaidd ac anacademaidd;

- bod y staff sy'n ymwneud â chynorthwyo'r sefydliad i gyflwyno ei ddarpariaeth o ran addysg uwch yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol;

- bod y wybodaeth y mae'n ei chynhyrchu am ei ddarpariaeth o ran addysg uwch yn gywir ac yn gyflawn; a

- bod cyfle cyfartal yn nod y mae'n ymgyrraedd ato a'i fod yn cyrraedd y nod hwnnw yn ei weithgareddau.

## Adran 4: Rhychwant a chyfnod y pwerau dyfarnu graddau sylfaen ac adnewyddu'r pwerau

Bydd sefydliadau addysg bellach y rhoddwyd pwerau dyfarnu graddau sylfaen iddynt yn gallu dyfarnu graddau sylfaen yn unig. Bydd y pwerau'n cael eu rhoi gan Orchymyn y Cyfrin Gyngor.

### Cyfyngu ar y pwerau

Mae adran 76 Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn rhoi awdurdod i'r Cyfrin Gyngor gyfyngu ar y pwerau dyfarnu graddau sylfaen, drwy gyflwyno'r Gorchymyn yn amodol ar y cyfyngiadau canlynol:

- caiff sefydliad addysg bellach ei atal rhag awdurdodi sefydliad arall i ddyfarnu gradd sylfaen ar ei ran; a/neu

- caiff sefydliad addysg bellach ei atal rhag gallu dyfarnu graddau sylfaen i fyfyrwyr nad oeddent wedi cofrestru gyda'r sefydliad pan wnaethant gwblhau'r cwrs astudio y rhoddir y dyfarniad ar ei gyfer.

Mae Llywodraeth Cymru yn debygol o argymell i'r Cyfrin Gyngor y dylai sefydliad addysg bellach gael pwerau cyfyngedig ac y dylai'r pwerau hynny gael eu cyfyngu i gyfnod o chwe blynedd i ddechrau.

**Adnewyddu'r pwerau**

Os bydd y sefydliad yn cael asesiad boddhaol gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd cyn diwedd y cyfnod 'prawf' hwn o chwe blynedd, bydd Llywodraeth Cymru yn cynghori'r Cyfrin Gyngor ynghylch rhychwant y pwerau y dylid eu rhoi.